

KADWALADR (CADWALADER), SION, JOHN, SIONYN; baledwr ac anterliwtiwr a gyfansoddai yn nechrau hanner olaf y 18fed ganrif

Enw: Sion Kadwaladr

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: baledwr ac anterliwtiwr

Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth

Awdur: Gruffydd Glyn Evans

O blwyf Llany Cil, ger y Bala, yr oedd yn ôl '[Ioan Pedr](#)' (N.L.W. MS. 2629). Disgrifia ei hun (yn ei anterliwt *Gaulove*, 125) fel 'dynan go brydd heb chwaer na brawd, anystwyth dlawd yn wastad.' Tystiolaethir mewn baled ganddo (*Bibliography of Welsh Ballads*, No. 73) ac yn ei anterliwt *Einion*, ac mewn marwnad iddo (yn N.L.W. MS. 2629) iddo ddioddef ei dransportio i'r America am saith mlynedd. Yn ôl '[Ioan Pedr](#)' ei droseidd ydoedd lladrata hanner coron. Ymddengys mai ar ei ddychweliad y cyfansoddodd ei anterliwtiau. (1) *Einion a Gwenllian* (N.L.W. MS. 522); ni raid derbyn yr awgrym mai ar y cyd â [Huw Jones](#) o Langwm y'i hysgrifennwyd. Cynigir tua 1756 fel dyddiad cyfansoddi. (2) *Gaulove a Clarinda*; cyfansoddwyd rhwng 1756 a 1762 (N.L.W. MS. Cwrtmawr 39). (3) *Y Brenin Dafydd a Gwraig Urias*; cyfansoddwyd gyda [Huw Jones](#) o Langwm ac argraffwyd yng Nghaer tua 1765. Ei nodweddion fel anterliwtiwr yw bywiogrwydd ei olygfeydd a'i ysmaldod miniog. Nid yr un yw â'r John Cadwaladr y ceir dwy faled o'i waith yn *Beirdd y Berwyn* ('*Cyfres y Fil*).

Awdur

Gruffydd Glyn Evans

Ffynonellau

G. G. Evans, 'Yr Anterliwd Gymraeg' (traethawd Prifysgol Cymru, 1938)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Siôn Cadwaladr](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18535489](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

